OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r cyrff a restrir yn yr Atodlen at ddiben cynnwys mewn cynnig Cyllidebol yr adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli'r dynodiadau blaenorol a wnaed gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 (O.S. 2016/1096 (Cy. 260)) a Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2017 (O.S. 2017/946 (Cy. 235)) ac felly yn dirymu'r offerynnau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif (Cy. )

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

*Gwnaed* *12 Tachwedd 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *14 Tachwedd 2018*

*Yn dod i rym* *21 Ionawr 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o’r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r Trysorlys, pan feddyliant fod hynny’n briodol, ac mae’r Trysorlys wedi cydsynio i’r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.

(2) Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2019.

### Dirymiadau

**2.** Mae’r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016(**2**);

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).

(**2**) O.S. 2016/1096 (Cy. 260).

(b) Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2017(**1**).

**Dynodiadau**

**3.** Mae corff a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gorff dynodedig at ddibenion adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Gweinidogion Cymru(**2**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
12 Tachwedd 2018

(**1**) O.S. 2017/946 (Cy. 235).
(**2**) Yn rhinwedd adran 124(3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae Gweinidogion Cymru yn "relevant person" at ddibenion adran 126A o'r Ddeddf honno.

# YR ATODLEN

Erthygl 3

## Cyrff Dynodedig

Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Awdurdod Cyllid Cymru(**1**)

Byrddau Iechyd Lleol (fel y'u sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**))

Career Choices Dewis Gyrfa Ltd

DCFW Limited

Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales

Innovation Point Limited

Life Sciences Hub Wales Limited

Sector Development Wales Partnership Limited

Trafnidiaeth Cymru

WGC Holdco Limited

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre(**3**)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru(**4**)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(**5**)

---

(**1**) Sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6).
(**2**) 2006 p. 42.
(**3**) Sefydlwyd gan O.S. 1993/2838, erthygl 2. Amnewidiwyd erthygl 2 gan O.S. 2018/887 (Cy. 176), erthygl 3.
(**4**) Sefydlwyd gan O.S. 1998/678, erthygl 2.
(**5**) Sefydlwyd gan O.S. 2009/2058 (Cy. 177), erthygl 2.